Gwasanaethau Cymdeithasol

Talu am Ofal Preswyl

Taflen Wybdaeth

Ebrill
2024

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

TALU AM OFAL PRESWYL - TAFLEN WYBODAETH

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

YN YMWNEUD Â	Polisi Codi Tâl
RHIF CYFEIRNOD	LL02
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Naomi Harper
DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF	Ebrill 2024
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Ebrill 2025

Cynnwys

1.0 TALU AM OFAL PRESWYL - TAFLEN WYBODAETH 4

2.0 TERFYNAU CYNILION A CHYFALAF 5

2.1 Beth sy'n digwydd os bydd fy nghynilion a/neu fy nghyfalaf yn disgyn o dan £50,000.00? 5

2.2 Cael gwared â Asedau 5

3.0 SUT RYDYN NI'N CYFRIFO FAINT MAE'N RHAID I RYWUN EI DALU? 6

3.1 Beth os nad ydw i eisiau neu os ydw i'n methu â rhoi gwybodaeth i chi am fy sefyllfa ariannol? 6

4.0 COSTAU YCHWANEGOL 8

4.1 Beth mae'r costau ychwanegol yn eu cynnwys? 8

4.2 Talu am gostau ychwanegol 8

4.3 Beth sy'n digwydd os yw ffioedd y cartref gofal yn cynyddu? 8

4.4 A ellir gweithredu cost ychwanegol ar ôl mynd i gartref gofal? 9

4.5 Beth sy'n digwydd os na alla i/ na all y trydydd parti dalu'r costau ychwanegol mwyach? 9

5.0 BETH OS YDW I PIAU EIDDO? 10

5.1 Cytundeb Taliad Gohiriedig 11

6.0 GOFAL BYRDYMOR, SEIBIANT A THROS DRO 11

7.0 YMHOLIADAU A HERIO CANLYNIAD YR ASESIAD 12

8.0 SUT MAE POSIB' TALU'R FFIOEDD? 12

9.0 YDW I'N HAWLIO'R BUDD-DALIADAU CYWIR? 12

10.0 BETH SY'N DIGWYDD I'R WYBODAETH SY'N CAEL EI RHOI I'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL? 13

11.0 MANYLION FFIOEDD SIR Y FFLINT RHWNG EBRILL 2024 A MAWRTH 2025 13

12.0 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL 15

13.0 CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU 16

1.0 TALU AM OFAL PRESWYL - TAFLEN WYBODAETH

Efallai y byddwch chi'n gallu cael cymorth ariannol tuag at eich gofal os yw Gweithiwr Cymdeithasol yn asesu eich bod angen gofal preswyl neu ofal nyrsio. Mae'r daflen ffeithiau hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y mae Cyngor Sir y Fflint yn gwneud penderfyniad pan fydd gofyn i ni ddarparu cymorth ariannol tuag at gostau ffioedd cartref gofal. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn dibynnu ar eich sefyllfa ariannol, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am yr holl gostau gofal neu ran o'r costau gofal o'ch adnoddau eich hun cyn gynted ag yr ewch i aros mewn cartref. Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch chi ddewis pa gartref i fyw ynddo.

Rhaid i chi beidio â rhoi unrhyw adnoddau ariannol fel arian neu eiddo i eraill na cheisio cael gwared ag unrhyw asedau er mwyn lleihau eich gallu i dalu ffioedd Cyngor Sir y Fflint. Os gwnewch chi, fe allai Cyngor Sir y Fflint gyfrif bod yr asedau hynny'n dal i berthyn i chi. Os ydych chi mewn unrhyw amheuaeth am eich sefyllfa, dylech gael cyngor cyfreithiol.

Efallai eich bod chi wedi darllen y canllaw 'Meddwl am gartref gofal' gan Lywodraeth Cymru'n barod. Gofynnwch i'ch Gweithiwr Cymdeithasol os hoffech chi gael copi.

Os ydych chi'n derbyn cyllid gan Gyngor Sir y Fflint, byddwch yn dal i allu cadw £43.90 (lwfans personol) o'ch incwm wythnosol sydd wedi'i asesu i dalu am dreuliau personol.

Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn codi tâl arnoch os ydych chi dan 18 oed, yn cael help dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu wedi'ch asesu i fod yn bodloni'r gofynion am Ofal Iechyd Parhaus, sy'n cael ei asesu a'i ariannu gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae talu am ofal preswyl/nyrsio yn destun eithaf cymhleth a bydd angen i chi drafod yr opsiynau gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Asesiadau Ariannol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'n hanfodol eich bod yn cael cyngor annibynnol bob tro.

2.0 TERFYNAU CYNILION A CHYFALAF

Os oes gennych chi gynilion a/neu gyfalaf dros £50,000.00, bydd yn rhaid i chi dalu'r pris safonol llawn ar gyfer y Cartref Gofal rydych chi'n ei ddewis. Ni fyddwch yn derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Sir y Fflint. Gallai hyn hefyd fod yn wir os oes piau chi fwy nag un eiddo. Os yw eich cynilion a'ch asedau werth llai na £50,000.00, bydd angen i ni wneud asesiad ariannol.

Byddwn yn cyfrif 50% o'r balans mewn unrhyw gyfrifon ar y cyd sydd gennych chi gyda'ch priod/partner fel eich eiddo chi a 100% o'r balansau sydd yn eich enw chi yn unig. Rydyn ni hefyd yn cynnwys cynlluniau cynilio am gyfnod penodol, bondiau buddsoddi* a chyfranddaliadau sydd yn eich enw chi.

Os oes gennych chi gyfrif gyda rhywun heblaw eich priod/partner, byddwn yn cyfrif 100% o'r balans fel eiddo i chi oni bai eich bod yn gallu dangos fel arall.

*Efallai y bydd rhai bondiau buddsoddi sy'n cynnwys yswiriant bywyd yn cael eu heithrio wrth gyfrif.

2.1 Beth sy'n digwydd os bydd fy nghynilion a/neu fy nghyfalaf yn disgyn o dan £50,000.00?

Os ydych chi'n hunan-ariannu eich ffioedd gofal ar hyn o bryd a bod eich cynilion yn cyrraedd y trothwy cyfalaf, yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Cyngor Sir lle mae'r cartref gofal er mwyn cael cymorth i ariannu'ch gofal. Felly, os ydi'r cartref gofal yn Wrecsam neu yn Swydd Gaer, bydd angen i chi gysylltu â'r Cyngor hwnnw am gymorth.

2.2 Cael gwared â Asedau

Gall Awdurdod Lleol ystyried bod unigolion wedi cael gwared â'u hasedau er mwyn lleihau'r gost i'w thalu. Mae cael gwared ag asedau'n golygu bod rhywun wedi lleihau neu gael gwared â'u hasedau'n fwriadol, sy'n arwain at leihau neu dynnu unrhyw gost am eu gofal a'u cymorth. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid iddynt fod wedi penderfynu gwneud hyn gan wybod y byddai'n effeithio ar faint maent y gorfod ei dalu.

Byddai'r canlynol yn cael eu hystyried yn achosion o gael gwared ag asedau:

- Taliad lwmp-swm i rywun arall, er enghraifft, fel anrheg
- Gwariant sylweddol fwyaf sydyn ac yn anghydnaws â'u gwariant blaenorol
- Trosglwyddo gweithredoedd eiddo i unigolyn arall
- Asedau wedi'u rhoi mewn ymddiriedolaeth a dim modd eu tynnu allan
- Lleihau asedau trwy fyw'n tu hwnt o foethus, er enghraifft, prynu sbortscar drud

Ni wnawn ni roi cymorth ariannol i unrhyw un sydd, yn ein barn ni, wedi cael gwared â chyfalaf/cynilion yn fwriadol fel eu bod dan y trothwy o £50,000.00. Bydd gofyn iddynt dalu am gostau llawn eu gwasanaethau heb unrhyw gymorth ariannol gan yr Awdurdod.

3.0 SUT RYDYN NI'N CYFRIFO FAINT MAE'N RHAID I RYWUN EI DALU?

Bydd Swyddog Budd-daliadau Lles o Gyngor Sir y Fflint yn trefnu i ddod atoch i gwblhau Ffurflen Hawlio Cymorth Ariannol i helpu'r Swyddog Asesiadau Ariannol i gyfrifo faint allwch chi fforddio ei dalu tuag at eich gwasanaethau. Fe fyddwn ni angen y wybodaeth hon cyn gynted â phosib', neu fel arall, fe allech chi orfod talu'r gost wythnosol lawn am eich gwasanaeth. Gallwch ofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu rywun rydych chi'n ymddiried ynddynt i fod yno i'ch cefnogi gyda'r Swyddog.

3.1 Beth os nad ydw i eisiau neu os ydw i'n methu â rhoi gwybodaeth i chi am fy sefyllfa ariannol?

Os byddwch chi'n dewis peidio dweud wrthym ni am eich sefyllfa ariannol neu os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth rydyn ni ei hangen i gwblhau'r asesiad, bydd disgwyl i chi dalu ffioedd y cartref gofal yn llawn heb unrhyw gymorth ariannol gan y Cyngor.

Os nad yw'r wybodaeth gywir gennych chi pan mae'r Swyddog Budd-daliadau Lles yn dod heibio, fe gewch chi fanylion ysgrifenedig am ba wybodaeth arall sydd ei hangen. Mae gennych chi uchafswm o 14 diwrnod gwaith i ddarparu'r wybodaeth arall yma. Rhowch wybod i ni os byddwch chi'n cael trafferth ei darparu neu fe allem ni gymryd nad ydych chi angen cymorth ariannol.

Pan fyddwn ni wedi asesu bod eich cynilion/cyfalaf yn is na £50,000.00, rydyn ni'n edrych ar eich incwm. Mae'r asesiad yn cael ei gwblhau trwy gyfrifo 100% o'ch holl bensiynau a budd-daliadau, gan dynnu'r lwfans personol.

Mae'r lwfans personol yn swm sy'n cael ei osod gan Lywodraeth Cymru a dyma'r isafswm y mae'n rhaid ei adael i chi os ydych chi mewn cartref gofal yn barhaol.

- Rydyn ni naill ai'n defnyddio swm cyfalaf unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau neu'r llog rydych chi'n ei dderbyn yn dibynnu ar y math o fuddsoddiad.
- Nid ydym yn cyfrif pensiynau, budd-daliadau na chynilion eich priod/partner.
- Nid ydym yn cyfrif unrhyw Elfen Symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl na'r Taliad Annibyniaeth Bersonol.
- Nid ydym yn cyfrif y £43.90 cyntaf o'ch incwm wythnosol gan mai hwn yw swm eich Lwfans Personol.
- Nid ydym yn cyfrif y £5.75 cyntaf o unrhyw Gredyd Cynilion rydych yn ei dderbyn bob wythnos.

Er enghraifft	
Incwm	
Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth	£127.49
Pensiwn Galwedigaethol	£72.60
Incwm i'w asesu	£200.09
I'w ddiystyru	
Lwfans Personol	£43.90
Cyfanswm i'w ddiystyru	£43.90
Tâl wythnosol	**£156.19**

Bydd eich Swyddog Asesiadau Ariannol yn ysgrifennu atoch chi i gadarnhau canlyniad eich asesiad ariannol.

Sylwch y bydd unrhyw hawl i fudd-daliadau fel Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol a Lwfans Byw i'r Anabl (elfen ofal) yn dod i ben bedair wythnos ar ôl symud i Gartref Preswyl neu Nyrsio, felly dylech roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau eich bod yn symud i gartref rhag bod budd-daliadau'n cael eu gordalu i chi.

4.0 COSTAU YCHWANEGOL

Mae rhai cartrefi gofal annibynnol yn codi ffioedd uwch na'r swm arferol y gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyfrannu i gwrdd yn ddigonol â chost y gofal sydd ei angen i ddiwallu eich anghenion a aseswyd. Bydd y rhesymau am y ffioedd ychwanegol yn amrywio o gartref i gartref. Y gost ychwanegol yw'r gwahaniaeth rhwng y swm y bydd y Cyngor yn ei dalu a chost y cartref gofal dewisol, gellir adolygu'r rhain, a gall y symiau newid dros amser.

Gellir cyfeirio at y costau ychwanegol hyn hefyd fel "Ffioedd Atodol".

4.1 Beth mae'r costau ychwanegol yn eu cynnwys?

Efallai bydd y cartref yn codi ffi ychwanegol am ystafell sydd yn well mewn rhyw ffordd o'i gymharu ag ystafell safonol. Fodd bynnag, gall y ffioedd ychwanegol hyn gynnwys unrhyw beth a ddarperir gan y cartref sydd y tu allan i'r 'costau arferol' y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu bodloni i ddarparu gofal i gwrdd â'ch anghenion a aseswyd.

Cyn i chi lofnodi unrhyw gontract, dylai'r cartref gofal roi manylion ysgrifenedig i chi yn cynnwys yr holl ffioedd y mae'n bwriadu eu codi yn y ddogfen 'Datganiad o Ddiben'. Os oes unrhyw beth yn aneglur neu nad ydych yn ei ddeall, dylech ofyn am gyngor.

4.2 Talu am gostau ychwanegol

Os byddwch yn dewis byw mewn cartref gofal sydd yn costio mwy na chost arferol y Cyngor am y math o ofal a aseswyd bod arnoch ei angen, mae'n rhaid gwneud cytundeb mewn perthynas â'r ymrwymiad parhaus i fodloni'r costau ychwanegol hyn.

Gallwch ond fodloni'r costau hyn eich hun mewn amgylchiadau penodol:

- Os ydych yn destun diystyriad eiddo 12 wythnos neu,
- Os ydych wedi ffurfio cytundeb taliadau gohiriedig.

Os nad yw unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi, y dewis arall yw bod trydydd parti yn bodloni'r costau ychwanegol hyn ar eich rhan. Gall y trydydd parti fod yn berthynas, yn ffrind, yn sefydliad neu'n elusen.

Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor ariannol a chyfreithiol annibynnol os ydych yn ystyried yr opsiynau hyn.

Mae taliadau am gostau ychwanegol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r cartref gofal, bydd angen gwneud trefniadau gyda nhw ar gyfer hyn.

4.3 Beth sy'n digwydd os yw ffioedd y cartref gofal yn cynyddu?

Mae'n arferol bod ffioedd cartrefi gofal yn cynyddu bob blwyddyn. Efallai na fydd y swm y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrannu at eich ffioedd yn cynyddu ar yr un gyfradd neu'r un amser â chynnydd yn ffioedd y cartref.

4.4 A ellir gweithredu cost ychwanegol ar ôl mynd i gartref gofal?

Os ydych eisoes yn breswylydd mewn cartref gofal, ac nid oedd unrhyw gostau ychwanegol yn ofynnol ar adeg y daethoch yn breswylydd, efallai bydd y cartref gofal yn ceisio cyflwyno cost ychwanegol ar ddyddiad diweddarach. Hefyd, os ydych chi wedi gwneud cais neu wedi cytuno i newid eich trefniadau, er enghraifft, symud i ystafell well, yna gall cynnydd yn y gost ychwanegol ddod yn ddyledus.

4.5 Beth sy'n digwydd os na alla i/ na all y trydydd parti dalu'r costau ychwanegol mwyach?

Os ydych chi neu'r trydydd parti sydd yn bodloni'r costau ychwanegol yn dechrau cael anhawster gyda'r trefniant, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosib. Bydd y Cyngor yn ceisio ei orau i'ch cefnogi chi neu'r trydydd parti i ddatrys y sefyllfa, er mwyn sicrhau bod modd i'r costau ychwanegol barhau i gael eu bodloni.

Fodd bynnag, os na ellir dod i gytundeb, yn unol ag asesiad llawn o'ch anghenion gofal, cewch gefnogaeth i ddod o hyd i gartref gofal arall nad yw'n ceisio taliadau am gostau ychwanegol.

Mae proses ar gyfer gwneud cais i'r Cyngor ystyried bodloni'r costau ychwanegol hyn. Bydd proses gyda phanel yn adolygu pob achos yn unigol i sicrhau cydraddoldeb a'r defnydd gorau o gyllidebau cyfyngedig y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth ar hyn, ewch i weld y Polisi Codi Tâl llawn.

5.0 BETH OS YDW I PIAU EIDDO?

Bydd gwerth eich tŷ neu unrhyw eiddo neu dir arall yn cael ei ystyried wrth gyfrifo eich cyfraniad tuag at eich gofal ar ôl y 12 wythnos gyntaf. Yn ystod y 12 wythnos gyntaf bydd y Cyngor yn cwblhau asesiad ariannol yn seiliedig ar eich incwm a'ch cyfalaf yn unig. Yr enw ar hwn ydi'r asesiad "diystyriaeth 12 wythnos" ac ni fydd gwerth eich eiddo a/neu dir wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad hwn. Nod hwn yw rhoi amser i chi benderfynu beth rydych chi am ei wneud gyda'ch hen gartref. Bydd yn dal angen i chi dalu'r cyfraniad sydd wedi'i asesu ar eich cyfer i'r cartref gofal yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hefyd yn rhaid i chi gynnal yr eiddo a thalu unrhyw gostau sy'n codi.

O'r drydedd wythnos ar ddeg ymlaen, fe fyddwch yn cael eich cyfrif fel preswylydd sy'n hunan-ariannu gan y bydd gwerth eich eiddo'n cael ei gyfrif. Bydd gofyn i chi dalu cyfraniad y Cyngor tuag at ffioedd y cartref gofal yn ei ôl ar ôl gwerthu eich eiddo o'r drydedd wythnos ar ddeg ymlaen. Gallwch hefyd hawlio Lwfans Gweini, budd-dal sy'n cael ei roi i helpu i dalu costau eich gofal, o'r dyddiad hwn ymlaen. Gall Swyddog Budd-daliadau Lles eich helpu i gwblhau'r hawliad hwn.

Bydd y Cyngor, drwy bridiant cyfreithiol, yn hawlio'r arian a dalwyd ar eich rhan yn ei ôl. Bydd hwn yn cael ei ddiddymu ar ôl i'r Cyngor dderbyn tâl llawn am y ffioedd sydd wedi'u talu ar ôl i chi werthu eich eiddo.

Os bydd eich priod neu'ch partner yn parhau i fyw'n barhaol yn eich cartref pan fyddwch yn symud i gartref gofal, **ni fydd** gwerth yr eiddo hwn yn cael ei gynnwys yn ein cyfrifiadau; fodd bynnag os oes gennych ail gartref a/neu dir, bydd gwerth y tir/eiddo hwn yn cael ei gyfrif ac fe allech gael eich ystyried i fod yn hunan-ariannu eich gofal.

Os bydd rhywun arall heblaw eich priod neu bartner yn parhau i fyw yn eich cartref ar ôl i chi symud i gartref gofal, er enghraifft, eich plentyn neu ffrind, (gyda rhai eithriadau penodol) fe allai gael ei gynnwys yn ein cyfrifiadau. Dylech drafod hyn gyda'r Swyddog Asesiadau Ariannol neu Swyddog Budd-daliadau Lles.

5.1 Cytundeb Taliad Gohiriedig

Efallai y bydd y Cyngor yn ystyried llunio Cytundeb Taliad Gohiriedig lle nad oes rhaid i chi werthu eich eiddo ar unwaith i ariannu eich gofal preswyl. Yn hytrach, gallwch "ohirio" ei werthu am gyfnod. Byddwch yn ffurfio cytundeb cyfreithiol gyda'r Cyngor a bydd pridiant cyfreithiol yn cael ei osod ar eich eiddo. Bydd y pridiant yn cael ei ddiddymu ar ôl i'r Cyngor dderbyn taliad llawn am y ffioedd sydd wedi'u talu.

Mae costau gweinyddol am lunio a chynnal y cytundeb am y cyfnod sydd ei angen. Bydd costau eraill hefyd, fel costau cyfreithiol. Bydd llog yn cael ei godi ar y swm sy'n

hel yn erbyn eich eiddo hefyd. Dylech fod yn ymwybodol y bydd adlog (*compound interest)* ar y llog hwn.

Fe'ch cynghorir i gael cyngor cyfreithiol ac ariannol cyn llunio Cytundeb Taliad Gohiriedig.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am y Cytundeb Taliad Gohiriedig, trafodwch gyda'r Swyddog Budd-daliadau Lles neu eich Swyddog Asesiadau Ariannol.

Os ydych wedi trosglwyddo perchnogaeth eich cartref i rywun arall, e.e. plant neu wyrion, mae'n dal yn bosib' y bydd gwerth tybiedig yr eiddo'n cael ei gyfrif fel eich cynilon/cyfalaf ac efallai na fyddwch yn cael cymorth ariannol.

6.0 GOFAL BYRDYMOR, SEIBIANT A THROS DRO

Pan fydd angen trefnu i rywun aros mewn cartref gofal i gael gofal tymor byr fel pan mae argyfwng neu i gael gofal seibiant, canllawiau Llywodraeth Cymru ydi bod y ffioedd yr un fath â phe baech chi'n byw gartref. Bydd gofal preswyl neu nyrsio tymor byr am gyfnod o hyd at 8 wythnos yn cael ei asesu dan y polisi ar gyfer Gwasanaethau Gofal yn y Gymuned.

Os yw lleoliad Gofal Cyfnod Byr yn fwy na wyth wythnos, dylid ei drin fel Lleoliad Dros Dro a bydd yn cael ei asesu o dan y polisi codi tâl ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio. Os gwyddir fod lleoliad yn un dros dro (os oes ganddo ddyddiad terfyn disgwyliedig ai peidio) bydd yn cael ei asesu o dan y polisi codi tâl ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio o'r dyddiad derbyn.

Mewn rhai achosion, bydd posib' cael Cyllid Gofal Canolradd i dalu am gyfnodau o ofal tymor byr, sy'n golygu na fyddai angen i chi dalu am hyd at chwe wythnos. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn trafod ac yn cadarnhau hyn gyda chi wrth drefnu'r gwasanaeth.

7.0 YMHOLIADAU A HERIO CANLYNIAD YR ASESIAD

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn neu os ydych chi'n meddwl bod camgymeriad yn yr asesiad o'ch cyfraniad tuag at gost preswylio mewn cartref gofal, dylech gysylltu â'r Swyddog Asesiadau Ariannol. Os nad ydych chi'n fodlon bod hyn yn datrys y mater, gallwch ofyn i Arweinydd y Tîm Asesiadau Ariannol adolygu eich cais. Ein manylion cyswllt yw:

Y Tîm Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl
Gwasanaethau Cymdeithasol
Neuadd y Sir, yr Wyddgrug
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint, CH7 6NN 01352 701318

Gallwch ofyn am adolygiad unrhyw bryd ar ôl i ni ysgrifennu atoch chi'n cadarnhau'r cyfraniad wythnosol sydd wedi'i asesu ar eich cyfer. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor pan ydych chi eisiau iddo edrych ar y penderfyniad eto. Gallwch wneud hyn un ai trwy siarad efo'ch Swyddog Asesiadau Ariannol neu ysgrifennu ato/ati.

Mae'n bwysig i chi roi gwybod i'ch Swyddog Asesiadau Ariannol am unrhyw newidiadau i'ch incwm neu eich amgylchiadau gan y gallai hyn effeithio ar eich cyfraniad wythnosol.

Mae pob asesiad ariannol yn cael eu hailasesu pob mis Ebrill yn unol â'r cynnydd blynyddol i fudd-daliadau. Mae hwn yn cael ei gwblhau'n awtomatig ac nid oes angen i chi gysylltu â ni bryd hynny. Pan fydd eich ailasesiad wedi'i gwblhau, fe wnawn ni ysgrifennu atoch chi yn cadarnhau eich cyfraniad wythnosol newydd sydd wedi'i asesu.

8.0 SUT MAE POSIB' TALU'R FFIOEDD?

Ar ôl i chi gael gwybod beth yw eich cyfraniad wythnosol, bydd angen i chi drefnu i dalu'r cyfraniad hwn yn uniongyrchol i'r cartref gofal. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi gofal yn cynnig gwasanaeth Archeb Sefydlog neu'n derbyn sieciau. Maent yn tueddu i ffafrio talu pob mis. Os ydych chi mewn cartref gofal sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint, byddwch yn derbyn anfoneb gan y Cyngor am swm eich cyfraniad.

9.0 YDW I'N HAWLIO'R BUDD-DALIADAU CYWIR?

Pan fyddwch yn penderfynu mynd i gartref, bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn gofyn i Swyddog Budd-daliadau Lles ymweld â chi i lenwi'r ffurflenni gyda chi a sicrhau eich bod chi (a'ch teulu) yn derbyn yr holl fudd-daliadau cywir. Bydd unrhyw fudd-daliadau newydd mae gennych chi hawl iddynt oherwydd y newid i'ch sefyllfa yn cael eu cynnwys yn eich asesiad. Bydd Swyddog Budd-daliadau Lles yn eich cynorthwyo gydag unrhyw hawliadau newydd.

10.0 BETH SY'N DIGWYDD I'R WYBODAETH SY'N CAEL EI RHOI I'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL?

Rydyn ni'n parchu eich preifatrwydd, ond ar adegau, mae'n rhaid i ni rannu gwybodaeth gyda thrydydd parti er mwyn gwirio'r wybodaeth, i atal neu ganfod trosedd ac er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaeth statudol neu weinyddol neu gan fod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

11.0 MANYLION FFIOEDD SIR Y FFLINT RHWNG EBRILL 2024 A MAWRTH 2025

Mae'r uchafswm wythnosol (gan gynnwys cyfraniadau sy'n cael eu talu i gartref gofal preifat sydd â chontract gyda Chyngor Sir y Fflint) wedi'i amlinellu isod:

Cartref gofal preifat	
Henoed/henoed hynod ddibynnol	£762.01
Gofal preswyl i henoed â salwch meddwl	£865.07
Gofal nyrsio (dros 60)	£899.42
Gofal nyrsio i henoed â salwch meddwl	£968.17

Sylwer bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu £8.37 ychwanegol yr wythnos tuag at holl leoliadau nyrsio yng Nghymru.

Bydd yr Uwch-reolwr yn penderfynu ar achosion lle mae angen arbennig eithriadol.

Efallai y bydd rhai cartrefi gofal â ffioedd wythnosol sy'n uwch na'r rhai mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno arnynt. Bydd y gwahaniaeth rhwng y costau'n cael eu codi gan y cartref gofal fel 'ffi ychwanegol'. Er enghraifft, y ffi wythnosol sydd wedi'i gosod gan y Cyngor ydi £762.01 ac rydych chi'n dewis cartref gofal sy'n costio £800.00 yr wythnos. Gan fod eich cartref gofal dewisol yn costio mwy na'r ffi sydd wedi'i gosod gan y Cyngor, bydd angen talu £37.99 yn ychwanegol. Mae hyn yn ychwanegol at eich cyfraniad wythnosol sydd wedi'i asesu ac mae yn aml yn cael ei dalu gan aelod o'r teulu neu gallwch dalu eich hun os oes gennych ddigon o gynilion. Trafodwch y taliadau ychwanegol gyda chartrefi gofal a chofiwch am hyn wrth benderfynu. Dylai'r trydydd parti gael cyngor cyfreithiol er mwyn deall yn iawn beth yw goblygiadau cytuno i dalu'r taliad ychwanegol.

Bydd preswylwyr nyrsio a gofal nyrsio i henoed sydd â salwch meddwl hefyd yn cael cyfraniad Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu gan yr Awdurdod Iechyd. Ar hyn o bryd, mae'n £184.32 yr wythnos, ac mae'n cael ei bennu gan y Bwrdd Iechyd. Bydd y GIG yn talu hwn yn uniongyrchol i'r cartref nyrsio, yn ychwanegol at ffioedd y cartref gofal. Mewn rhai achosion, gall yr Awdurdod Iechyd gytuno i dalu cost wythnosol lawn eich cartref gofal. Yr enw ar hyn ydi Cyllid Gofal Iechyd Parhaus. Mae proses y mae'n rhaid ei dilyn wrth ymgeisio am y cyllid hwn a nes bydd hyn wedi'i gytuno, bydd yn dal yn rhaid i chi dalu'r cyfraniad wythnosol sydd wedi'i asesu

ar eich cyfer i'r cartref gofal. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn ymgeisio am y cyllid uchod ar eich rhan os yw hynny'n briodol. Am ragor o wybodaeth am Ofal Nyrsio wedi'i Ariannu a Chyllid Gofal Iechyd Parhaus, trafodwch gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol.

12.0 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint	
08444 772020	www.flintshirecab.org.uk
Gofal a Thrwsio Sir y Fflint Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.	
01352 758700	www.flintshirecr.co.uk
Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru	
08450 549969	www.acnew.org.uk
Llinell Gymorth Mencap Cymru	
0808 808 1111	www.mencap.org.uk/wales
MIND	
01352 757637	www.flintshiremind.org.uk
Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)	
01352 752525	www.carers.org/local/wales/flintshire
Gwasanaethau Cymdeithasol Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ	
03000 858 858	SSDUTY@flintshire.gov.uk www.flintshire.gov.uk/careinfo

13.0 CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion, ar adegau, rydyn ni'n gwybod y gallech chi fod angen gwneud cwyn. Gallwch wneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Neuadd y Sir, yr Wyddgrug
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint, CH7 6NN 01352 702623

Mae taflen "Eich hawl i ganmol a chwyno", sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin, ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein ar: www.flintshire.gov.uk/careinfo

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein ar:

www.dewis.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras trwy ffonio 03000 858 858.